Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Gatholig Sain Alban

**Y Parc**
**Pont-y-pŵl**
**Torfaen**
**NP4 6XG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Gatholig Sain Alban

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Uwchradd Gatholig Sain Alban |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | Catholig Rhufeinig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 770 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 770 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.2%) | 16.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 17.8%) | 24.1% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.6% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 7.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 01/12/2015 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 15/05/2023 |
| Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan mae mewn ysgol ag iddi gymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae’n ofynnol yn gyfreithiol i’r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân. | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai’r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i’r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae staff yn Ysgol Uwchradd Sain Alban wedi ymrwymo i ddarparu'r addysg orau posibl i ddisgyblion ar sail ei gwerthoedd, sef 'Parch, Cyfrifoldeb a Gwydnwch', a ategir gan y ffydd Gatholig. Mae'r ysgol yn creu amgylchedd eithriadol o ofalgar a chynhwysol ar gyfer ei disgyblion. Mae hyn yn gryfder arbennig ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at les ac ymddygiad disgyblion, a'u hymgysylltiad â dysgu.

Ceir perthynas weithio gref rhwng disgyblion ac athrawon, sy'n seiliedig ar barch ar y ddwy ochr. Mae brwdfrydedd athrawon am eu pynciau yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu, ac mae staff yn annog disgyblion i osod dyheadau uchel iddyn nhw eu hunain. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn mae disgyblion yn gallu ei wneud, ac yn eu herio yn unol â hynny. O ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau bod yn yr ysgol ac yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Mae hyn yn helpu llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd da.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall disgwyliadau'r ysgol ynghylch ymddygiad, ac mae staff yn hyrwyddo ymddygiad da yn gyson ac yn sensitif. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at y modd y mae disgyblion yn ymddwyn. Maent yn dangos medrau cymdeithasol cryf ac yn rhyngweithio'n aeddfed â staff, eu cyfoedion ac ymwelwyr. Maent yn mwynhau bod yn yr ysgol ac yn fodlon â'u dysgu.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys, sy'n darparu ar gyfer diddordebau, anghenion a dyheadau bron pob un o'r disgyblion. Mae wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu Cwricwlwm i Gymru ac mae disgyblion yn mwynhau'r ymagwedd newydd at addysgu ym Mlwyddyn 7 yn seiliedig ar ddal dychymyg disgyblion a symbylu eu chwilfrydedd. Mae cynllunio ar gyfer cynnydd medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n dda. Mae'r ysgol yn darparu ystod ragorol o weithgareddau cyfoethogi sy'n cefnogi'r cwricwlwm ac yn datblygu diddordebau disgyblion. Ar hyn o bryd, nid yw'r ysgol yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg ar draws y cwricwlwm heblaw mewn gwersi Cymraeg.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth gan dîm arweinyddiaeth cryf, yn rhannu gweledigaeth glir o uchelgais uchel a llwyddiant i bawb. Mae bron pob un o'r staff yn hyrwyddo'r weledigaeth hon ac yn atgyfnerthu gwerthoedd yr ysgol yn gyson. Mae hyn yn cyfrannu'n gryf at ethos Catholig cynhwysol sy'n treiddio trwy fywyd ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn falch iawn o fod yn rhan o gymuned Sain Alban. Mae'r ysgol wedi datblygu perthnasoedd cryf ag amrywiaeth eang o bartneriaid i sicrhau'r cymorth gorau posibl ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, mae ansawdd adeiladau'r ysgol yn wael ac angen eu huwchraddio.

## Argymhellion

A1 Cynyddu ystod y cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau Cymraeg

A2 Gwella cyflwr yr adeiladau

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd hynod o gryf. Mae llawer o ddisgyblion yn galw gwybodaeth flaenorol i gof yn dda ac yn ei defnyddio’n effeithiol i lywio’u dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio’u gwybodaeth am yr hyn y mae Catholigion yn ei gredu i werthuso p’un a yw Duw yn gwbl bwerus ac yn gwbl gariadus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n barchus ar eu hathro ac ar eu cyfoedion. Maent yn ymgysylltu’n dda â thrafodaethau mewn grwpiau bach ac yn rhannu eu barn yn hyderus. Er enghraifft, mewn gwersi gwyddoniaeth, maent yn trafod sut i ymchwilio i’r modd y mae’r goeden hynaf ym Mhont-y-pŵl wedi goroesi am 400 mlynedd. Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i ateb cwestiynau a chyfrannu at drafodaeth ddosbarth gan wneud defnydd effeithiol o derminoleg pwnc. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn rhoi ymatebion tra datblygedig i gwestiynau eu hathrawon, er enghraifft wrth drafod cyfalafiaeth, sosialaeth a chyd-destun hanesyddol Macbeth. Mae ychydig o ddisgyblion yn gofyn cwestiynau perthnasol i egluro pwyntiau allweddol ac yn rhannu eu safbwyntiau â hyder.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn fedrus yn darllen ystod o destunau er gwybodaeth. Mae llawer ohonynt yn gwneud hynny â dealltwriaeth dda. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn hynod dreiddgar yn eu dadansoddiadau o farddoniaeth Wilfred Owen a Jessie Pope, er enghraifft, a’u dealltwriaeth o sut mae awduron yn llywio meddyliau darllenwyr mewn testunau dystopaidd. Mae disgyblion o bob oedran yn elwa ar gyfleoedd i gymhwyso strategaethau darllen mwy datblygedig fel crynodeb, cyfosod a gwerthuso mewn gwahanol bynciau. Pan fydd angen, mae disgyblion yn darllen ar goedd â hyder a rhuglder, ar y cyfan.

Ar draws y cwricwlwm, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu’n glir at ystod o ddibenion, er enghraifft mewn gwersi hanes wrth werthuso p’un a oedd y Chwyldro Diwydiannol yn beth da. Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu hysgrifennu’n addas ac yn defnyddio paragraffau’n briodol. Maent yn ysgrifennu’n hyderus yn estynedig â chywirdeb addas ac yn defnyddio ystod dda o eirfa. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu’n rhugl gan ddefnyddio gwahanol strwythurau brawddeg a geirfa soffistigedig. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadegol sylfaenol.

Mewn gwersi Cymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau Cymraeg ysgrifenedig, ac mae mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu brawddegau sylfaenol â chywirdeb addas. Fodd bynnag, yn gyffredinol, maent yn cael trafferth â’u

medrau siarad. Mae diffyg hyder gan lawer o ddisgyblion, ac nid yw eu hynganiad wedi'i ddatblygu'n ddigonol. O ganlyniad, maent yn rhoi ymatebion bras a chryno yn unig.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhif cadarn a gallant ddefnyddio pedair rheol rhifyddeg yn dda i ddatrys amrywiaeth o broblemau. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn defnyddio fformiwlâu i gyfrifo symiau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyfrifo'r egni sy'n cael ei ryddhau fesul gram o wahanol rawnfwydydd. Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o siapiau a mesur ac yn defnyddio theorem Pythagoras yn dda i gyfrifo symiau anhysbys triongl. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau trin data yn effeithiol a gallant lunio a phlotio ystod o graffiau yn gywir. O roi'r cyfle iddynt, mae disgyblion yn dadansoddi graffiau yn briodol. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae disgyblion mwy abl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o agweddau mwy datblygedig, er enghraifft sut i symleiddio syrdiau (rhifau na ellir eu symleiddio i rif cyfan). Mae ychydig o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhif sylfaenol gwan. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn ei chael yn anodd dirnad cysyniadau newydd.

O roi cyfleoedd iddynt, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn dda. Er enghraifft, mewn gwersi addysg gorfforol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth wella'u technegau dal a maesu mewn criced. Mewn gwersi dylunio a thechnoleg, mae disgyblion yn dylunio cofroddion piwter, y gellid eu gwerthu mewn canolfannau lleol i ymwelwyr. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio ystod o gymwysiadau meddalwedd mewn mathemateg a chelf yn fedrus i greu siapiau cymhleth a chymharu'r graddiant ar graffiau llinell.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn falch o berthyn i ysgol gynhwysol ac yn hyrwyddo'i gwerthoedd craidd yn dda, sef parch, cwrteisi a charedigrwydd ar y ddwy ochr, a 'bod y gorau y gallwn ni fod'. Adlewyrchir eu mwynhad o'r ysgol yn dda yn lefel eu presenoldeb.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol ac yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt unrhyw broblemau, ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r ymagwedd adferol at ddelio â'u pryderon.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw a sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Mae niferoedd uchel o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys ymarferion chwaraeon a gemau, clwb gwyddbwyll, a chynhyrchiad cerddorol gan yr ysgol.

Mae ystod amrywiol o ddisgyblion yn cymryd rhan yn gyfrifol mewn gwneud penderfyniadau yn yr ysgol trwy'r cyfleoedd arwain niferus sydd ar gael iddynt. Caiff y disgyblion hyn eu penodi'n ddemocrataidd i'r Cyngor Ysgol, ac mae uwch ddisgyblion yn darparu dull cyfathrebu anffurfiol buddiol rhwng disgyblion a staff. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod arweinwyr yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn

gwerthfawrogi'r newidiadau a wneir, er enghraifft yn y bwyd amrywiol a gynigir yn ffreutur yr ysgol.

Mae disgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gref o degwch a chydraddoldeb, wedi'i gefnogi gan y 'Timau Ethos Ieuenctid' a'r 'Grŵp Amrywiaeth'. Mae disgyblion yn y 'Pwyllgor Eco' yn dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd ac yn cefnogi'r gymuned ehangach trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau codi sbwriel rheolaidd a chreu blychau gwenyn ar gyfer y parc cymunedol lleol. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi bod yr ysgol yn parchu ac yn dathlu amrywiaeth ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig ag amrywiaeth eang o grwpiau o fewn yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu. Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon yn barod i ddysgu, ac yn ymgysylltu â'u gwaith yn bwrpasol. Maent yn ymfalchïo ac yn ymddiddori yn y gwaith hwnnw ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dyfalbarhau ac yn dangos gwydnwch pan fyddant yn ei weld yn fwy heriol. Mewn llawer o achosion, ceir cydweithrediad a rhyngweithio da iawn rhwng disgyblion, yn enwedig mewn gwaith grŵp neu mewn parau.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio pwrpasol a chynhyrchiol gyda'u dosbarthiadau. Mae hyn, ynghyd â'r arferion ystafell ddosbarth y maent yn eu sefydlu a ddeellir yn dda, yn helpu creu amgylchedd dysgu tawel sy'n cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda.

Mewn ychydig o achosion lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf, mae angerdd athrawon dros eu pwnc yn ennyn brwdfrydedd disgyblion, ac yn golygu eu bod yn ymgysylltu'n llawnach â'u dysgu. Mae'r athrawon hyn yn glir iawn ynglŷn â'r hyn maent eisiau i ddisgyblion ei ddysgu, ac mae ganddynt ddisgwyliadau hynod uchel o'r hyn y gallant ei wneud. Maent yn rhoi esboniadau clir ac yn cynllunio amrywiaeth o ddulliau difyr, adnoddau a thasgau heriol. Mae'r athrawon hyn yn sicrhau bod dilyniant y gweithgareddau yn adeiladu'n dda ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion. Maent yn gofyn cwestiynau craff a threiddgar sy'n herio medrau meddwl disgyblion ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth.

Mewn llawer o achosion, mae gan athrawon ddisgwyliadau sy'n briodol o uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau sy'n briodol o heriol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio holi'n fedrus i brocio dealltwriaeth disgyblion a sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol, o leiaf.

Mewn ychydig o wersi, mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei wneud yn rhy isel ac nid ydynt yn datblygu annibyniaeth disgyblion yn eu dysgu yn ddigon da. Mae'r athrawon hyn yn siarad gormod neu'n rhoi gormod o gymorth i ddisgyblion â thasgau ysgrifenedig. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn dibynnu'n ormodol ar gwestiynau caeedig ac nid ydynt yn monitro ymgysylltiad a chynnydd disgyblion yn ddigon da.

Ym mwyafrif yr achosion, mae athrawon yn rhoi adborth llafar buddiol i ddisgyblion. Mae lleiafrif o athrawon hefyd yn cynnig adborth ysgrifenedig manwl i ddisgyblion ac

yn rhoi cyfleoedd defnyddiol iddynt wella'u gwaith. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o feysydd pwnc, mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd yr adborth ysgrifenedig. Mae adroddiadau i rieni, sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion a'u hagweddau at ddysgu, yn glir ac yn hawdd eu deall. Mae gan yr ysgol systemau trylwyr ar gyfer monitro cynnydd disgyblion ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i roi amrywiaeth addas o ymyriadau buddiol ar waith.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys, sy'n bodloni diddordebau ac yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'n ystyried safbwyntiau disgyblion yn ofalus ac wedi cyflwyno pynciau fel yr amgylchedd adeiledig a lletygarwch ac arlwyo, o ganlyniad. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cymorth y maent yn ei dderbyn trwy lyfrynnau a fideos buddiol ar-lein, tra'n gwneud dewisiadau pwnc.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, ac mae nifer dda iawn o ddisgyblion yn mynychu'r rhain. Mae'r gweithgareddau gwerthfawr hyn, gan gynnwys clybiau chwaraeon a chlybiau trafod, yn cefnogi'r cwricwlwm ac yn datblygu diddordebau disgyblion yn dda. Mae'r ysgol wedi trefnu tripiau addysgol perthnasol â safleoedd lleol fel Sain Ffagan a Big Pit, yn ogystal ag ymweliadau â Rhufain, Efrog Newydd a Washington i gyfoethogi pynciau.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, gan adolygu a mireinio tasgau yn seiliedig ar ymagwedd 'Cwestiwn Mawr' ym Mlwyddyn 7. Mae hefyd wedi cydweithio'n effeithiol ag ysgolion cynradd partner i sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n dda ar wybodaeth flaenorol disgyblion a chytuno ar feysydd i'w datblygu ymhellach.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion gyda chyfleoedd gwerthchweil mewn gwahanol bynciau. Mae'n ddyddiau cynharach o ran datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae gan gydlynwyr medrau angerdd a gweledigaeth glir i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau yn seiliedig ar 'Numeracy Great Eight' a 'Literacy Super Six' Sain Alban, ac yn darparu arweiniad ac adnoddau pwrpasol i staff. Mae hyn wedi helpu sicrhau bod y ddarpariaeth honno yn ddilys, yn heriol, yn briodol ac yn gyson. Fodd bynnag, mae'r drefn o ran athrawon yn cywiro camgymeriadau llythrennedd yn ysgrifennu disgyblion yn rhy amrywiol.

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) werthfawr ac effeithiol yn ymateb yn dda i faterion cyfoes perthnasol. Mae'r rhaglen ABCh yn adlewyrchu gwerthoedd a rhinweddau'r ysgol yn glir.

Caiff disgyblion ychydig o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys gweddïau a bendithion ar ddechrau gwersi ac yn ystod cyfnodau cofrestru. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn dysgu am ddiwylliant Cymru, er enghraifft trwy gerdd dant mewn cerddoriaeth. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun heblaw eu gwersi Cymraeg yn gyfyngedig.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Sain Alban yn gymuned ofalgar, gynhwysol a chefnogol. Mae'r ysgol wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer lles disgyblion, sy'n cael ei hategu gan ei hethos Catholig.

Mae perthnasoedd gweithio pwrpasol a pharchus rhwng staff a disgyblion wedi creu amgylchedd lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi datblygu llawer o strategaethau buddiol, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid allanol, i gefnogi lles disgyblion a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau emosiynol neu iechyd meddwl. Mae'r ddarpariaeth 'Noddfa a Hafan' ('Sanctuary and Haven') yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion rannu eu pryderon a chytuno ar ffyrdd o ddatrys unrhyw broblemau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion a'u hymdeimlad o berthyn.

Mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd cryf â rhieni, gan ofyn am eu safbwyntiau'n rheolaidd, er enghraifft trwy'r Cyngor Rhieni. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cynnig cyfres o sgyrsiau lles a ddarperir gan asiantaethau allanol, i gynorthwyo rhieni i ddelio â phroblemau'r glasoed. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda rhieni, eu hysgolion cynradd partner, a cholegau i gefnogi cyfnod pontio disgyblion i Ysgol Sain Alban, ac oddi yno.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol iawn. Mae'r rhaglen ABCh wedi hen ennill ei phlwyf, a chaiff ei chyflwyno trwy ystod o wersi lles ar wahân, gweithgareddau amser dosbarth ac ar draws meysydd perthnasol y cwricwlwm. Caiff y rhaglen hon ei hadolygu'n rheolaidd, ac mae'n ystyried materion sy'n codi o holiaduron amrywiol a gynhelir gan yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i fonitro presenoldeb, ac mae'n cysylltu'n rheolaidd â theuluoedd disgyblion y mae eu presenoldeb yn is nag y dylai fod. Pryd bynnag y bydd disgyblion yn methu mynychu'r ysgol yn rheolaidd, neu'n amharod i wneud hynny, mae staff yn ymdrechu'n sylweddol i barhau i gefnogi eu cynnydd addysgol. Mae'r ysgol hefyd wedi datblygu ymagwedd ddefnyddiol at gefnogi disgyblion sy'n absennol yn barhaus trwy ei hymyrraeth 'Osgoi'r Ysgol am Resymau Emosiynol'.

Mae trefniadau pontio gwerthchweil i ddisgyblion ag ADY brofi ymweliadau ysgol fel rhan o'r wythnos iechyd a lles yn ehangu medrau bywyd disgyblion ac yn cyfrannu at berthnasoedd cadarn ac ymddiriedus rhwng disgyblion a staff. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, sy'n adlewyrchu'i hethos cynhwysol. Caiff y dathliadau litwrgaidd a gynigir gan yr ysgol eu gwerthfawrogi a'u parchu gan aelodau o gymuned yr ysgol.

Ceir darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae arweinwyr yn gwerthuso'i heffaith yn briodol trwy brosesau hunanwerthuso ac olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn targedau personoledig. Caiff disgyblion ag ADY eu cynorthwyo'n dda gan yr ysgol mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, yn ôl yr angen. Mae hyn yn eu helpu i symud ymlaen yn llwyddiannus ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Mae gan ddisgyblion ag ADY broffil un dudalen defnyddiol i'w cynorthwyo â'u lles a'u dysgu yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r proffiliau hyn a

gwybodaeth arall a ddarperir bob amser yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigolion ar draws y cwricwlwm.

Ceir ystod briodol o ymyriadau buddiol ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol â'u dysgu, fel dosbarthiadau cwricwlwm wedi'i addasu a sesiynau llythrennedd a rhifedd dwys. Fodd bynnag, nid yw cynnydd o fewn yr ymyriadau hyn bob amser yn cael ei fonitro'n ddigon trylwyr.

Mae trefniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn glir a thrylwyr. Mae'r ysgol yn ymateb i bryderon ynghylch diogelu yn brydlon ac yn effeithiol. Mae pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd, ac maent yn glir am drefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion. Mae staff yr ysgol wedi creu diwylliant o ddiogelu yn fedrus trwy eu gwaith dyddiol lle maent yn cymryd perchnogaeth bersonol am sicrhau y darperir ar gyfer anghenion disgyblion mewn ffordd sensitif a diogel.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar gael y profiadau dysgu gorau posibl ar gyfer disgyblion mewn amgylchedd gofalgar. Caiff ei gynorthwyo'n effeithiol gan weddill yr uwch dîm arweinyddiaeth, a gyda'i gilydd, maent yn hyrwyddo ethos Catholig cynhwysol sy'n treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae gan uwch arweinwyr ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion ac maent yn fodelau rôl cryf. Maent yn cyfleu eu gweledigaeth yn glir i'r holl randdeiliaid ac yn annog disgyblion i feithrin Parch, Cyfrifoldeb a Gwydnwch. Mae'r ffordd gyson mae staff yn hyrwyddo'r gwerthoedd hyn yn cyfrannu at safonau ymddygiad uchel ac agweddau cadarnhaol at ddysgu ymhlith disgyblion. O ganlyniad i arweinyddiaeth gref, mae disgyblion yn derbyn addysgu o ansawdd uchel, a gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol. Mae ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn arbennig o dda.

Mae arweinwyr yn drefnus ac yn sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn esmwyth ac yn effeithlon. Caiff rolau a chyfrifoldebau eu dosbarthu'n deg ymhlith uwch arweinwyr sy'n deall eu dyletswyddau'n dda. Caiff ychydig o arweinwyr canol gyfleoedd buddiol i ymgymryd â chyfrifoldebau ysgol gyfan a datblygu eu medrau arwain fel rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth estynedig.

Mae rheolwyr llinell yn cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr canol i wirio cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol, ac yn cynnig cymorth cryf iddynt pan fydd angen. Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad systematig sy'n cyd-fynd yn agos â phrif flaenoriaethau arweinwyr, ac yn arwain at gyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol ar gyfer staff. Caiff cynnydd tuag at dargedau aelodau staff unigol ei fonitro'n rheolaidd.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr canol yn cyflawni eu rolau'n dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae arweinwyr adrannol yn ymateb yn gadarnhaol i fentrau gan uwch arweinwyr. Maent yn olrhain cynnydd eu hadrannau tuag at flaenoriaethau gwella yn agos. Maent yn gefnogol i staff yn eu hadrannau tra'n eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad, hefyd.

Ceir partneriaethau cryf â rhieni. Ceir cylchlythyrau rheolaidd a gwefan ddefnyddiol sy'n hysbysu'r gymuned yn dda am weithgareddau'r ysgol. Mae'r Cyngor Rhieni yn

darparu bwrdd seinio gwerthfawr ar gyfer arweinwyr i archwilio syniadau newydd. Mae arweinwyr yn bobl hawdd mynd atynt ac yn aml yn cynnal trafodaethau anffurfiol gyda rhieni ar fyr rybudd.

Mae'r pennaeth a'r rheolwr busnes yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn canolbwyntio ar ddarparu profiadau dysgu gwerthfawr i ddisgyblion. Mae llywodraethwyr yn goruchwylio sefyllfa ariannol yr ysgol yn addas. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid grant, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn ystyriol i gefnogi ystod eang o ddarpariaeth berthnasol, er enghraifft ymyriadau llythrennedd a rhifedd. Maent yn sicrhau bod disgyblion dan anfantais yn elwa ar gael mynediad at ystod eang o brofiadau allgyrsiol, fel gwersi cerddoriaeth peripatetig.

Mae tir yr ysgol yn lân, yn daclus ac yn cael ei gynnal yn dda. Fodd bynnag, mae sawl rhan o'r adeilad mewn cyflwr gwael.

Mae llywodraethwyr yn angerddol am yr ysgol ac yn cael eu hysbysu'n addas am lawer o'i gwaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o sefyllfa ariannol yr ysgol ac wedi cynnig her addas ynghylch ychydig o feysydd o waith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn deall eu rôl o ran hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae pob un o'r arweinwyr yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau i ennill tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd yr addysgu yn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau byr â gwersi, arsylwadau gwersi cyfan, craffu ar waith disgyblion, cyfarfod â disgyblion i drafod eu profiadau, casglu safbwyntiau rhieni a dadansoddi data a gwybodaeth gan fyrddau arholi. O ganlyniad, mae arweinwyr yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Defnyddiant y wybodaeth hon yn fuddiol i gynllunio ar gyfer gwella. Mae blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau adrannol yn cyd-fynd â'i gilydd yn agos, sydd wedi helpu sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau ynghylch addysgu.

Mae gan yr ysgol ymagwedd strategol gynyddol at ddysgu proffesiynol sy'n cyd-fynd yn fuddiol â'i blaenoriaethau gwella eraill, gan gynnwys rheoli perfformiad. Mae'r egwyddorion a ddeellir yn glir sy'n ategu'r gwaith hwn yn sicrhau ei fod yn cefnogi blaenoriaethau gwella ysgol gyfan, ac anghenion unigolion yn effeithiol. Mae staff yn elwa ar ystod addas o gyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gynnwys rhannu arfer dda yn fuddiol o fewn meysydd pwnc, ac ar eu traws, a gweithio gydag asiantaethau allanol, lle bo'n briodol. Mae uwch arweinwyr yn gwerthuso dysgu proffesiynol yn drylwyr ac yn addasu eu hymagweddau yn unol â hynny.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru/

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2023